**EOC-04-00(P.5)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 25 Mai 2000 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Adeiladu Gwell Cymru - Tetsun Y Llythyr Ymgynghori |

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyllid y dogfennau a geir yn Atodiad A i bob un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol gan eu gwahodd i'r ymgynghoriad ar gylch cyllidebu'r Cynulliad.

**Annex A**

**CYLCH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL A CHYLLIDEBOL 2000**

Amgaeaf bapur yr wyf yn ei ddosbarthu i'r holl Pwyllgorau ac a fydd ar gael i bartneriaid heddiw. Mae'r papur yn nodi ym mha fodd y bwriadaf gefnogi proses gynllunio a chyllidebu'r Cynulliad ar gyfer 2001/02 ac ymlaen. Bydd y papur ar gael yn fuan ar y rhyngrwyd.

Fy nod cyntaf eleni yw cyfuno'r broses cynllunio corfforaethol â'r broses gyllidebu. Dylai hyn sicrhau mai'r prif ganolbwynt yw sut orau i sicrhau'r canlyniadau a chreu polisi newydd.

Mae'r papur yn nodi'r dull sy'n cael ei gynnig ar gyfer cylch eleni; mae'n cynnwys cyfeiriad at y cyd-destun strategol yr ydym yn gweithio ynddo, yn enwedig www.gwellcymru.com cefndir i'r sefyllfa gyllidebol, a rhai materion yr hoffwn i'r pwyllgorau a'n partneriaid eu hystyried.

Byddaf hefyd yn gofyn i Ysgrifenyddion y Cynullid, ymhellach yn y broses, i roi eu sylwadau ar y sefyllfa bresennol a'r newidiadau y mae arnom angen eu gwneud er mwyn ein symud tuag at y targedau ar gyfer 2010 a gynhwysir yn www.betterwales.com *.*

Mae'r papurau hyn i'w trafod gan y Pwyllgorau a byddant hefyd yn cael eu hanfon i bartneriaid a'u rhoi ar y wefan.

Bydd eich ymateb i'r papurau hyn yn ein helpu i ystyried y ffordd orau i ddefnyddio ein hadnoddau presennol a darparu'r arian ychwanegol a ddarperir i Gymru trwy Adolygiad Llywodraeth y DU o'i Gwariant. Nid oes fawr o ddiben trafod y manylion ariannol cyn hynny. Y cyfnod ar ôl toriad yr haf yw'r amser gorau i brisio'r dewisiadau mwyaf tebygol ar sail eu heffeithiolrwydd a'u blaenoriaeth gymharol.

Yn olaf, bydd y weinyddiaeth yn dwyn y newidiadau i Reol Sefydlog 19 ymlaen yn fuan gan wneud y broses gyllidebu yn symlach ac yn fwy ystyrlon eleni.

**EDWINA HART**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADEILADU GWELL CYMRU GYDA'N GILYDD**

PAPUR COMISIYNU AR GYFER CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB 2000

**<u>Cyflwyniad</u>**

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer cylch cynllunio cyllideb 2000. Bydd y Cynulliad yn eu defnyddio fel sail ar gyfer pennu ei gyllideb ar gyfer 2001-02 ac ymlaen. Bydd yn rhoi cychwyn ffurfiol ar y broses gyllideb dan Reol Sefydlog 19.

2. **Mae gofyn i Bwyllgorau'r Cynulliad a phartneriaid eraill ymateb i hwn, ac i bapurau pwnc dilynol Ysgrifenyddion y Cynulliad** (Atodiad 1), **erbyn 14 Gorffennaf fan bellaf.** Bydd hyn yn helpu'r Ysgrifennydd Cyllid i lunio cyllideb ddrafft ym mis Hydref. Mae prif elfennau'r cylch cynllunio'r gyllideb, a'r amserlen fras ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2.

3. Prif nodau'r cylch hon yw:

- canolbwyntio ar brofi pa mor effeithiol yw'n rhaglen bresennol; a
- meithrin meddylfryd newydd yngln â sut y gallwn gyflawni ein nodau tymor hir am Gymru well.

4. Y nod yw y dylai penderfyniadau ariannol ddeillio o edrych yn drylwyr ar ein hamcanion ac ar sut i'w cyflawni yn y modd gorau. Y bwriad yw defnyddio'r un broses i lunio cynllun corfforaethol diwygiedig ar gyfer y Cynulliad, a'i adroddiad blynyddol.

5. Mae'r papur wedi'i drefnu'n adrannau fel a ganlyn:

- y cyd-destun strategol;
- y cefndir ariannol;
- materion i'w hystyried ar y dechrau;

**<u>Cwestiynau i'w Trafod</u>**

6. Er mwyn rhoi ffocws i'r trafod ar y papur, byddai'n fuddiol cael barn y pwyllgorau a phartneriaid am y canlynol:

- cwestiynau ar weledigaeth a thargedau 2010 ym mharagraff 9 isod;
- y cwestiynau yngln â materion trawsbynciol ym mharagraff 17 isod.

**Y Cyd-destun Strategol**

7. Cyhoeddwyd cynllun strategol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol yn gynharach yn y mis – www.gwellcymru.com Mae'n nodi'r weledigaeth tymor hir, cryfderau a gwendidau cymharol Cymru, a'r hyn yr hoffem ei weld mewn deng mlynedd yng Nghymru.

8. Ni fwriedir ailadrodd cynnwys gwellcymru yma, ond mae crynodeb o safonau 'Cymru 2010' ynghlwm yn Atodiad 3. Yn y cylch cynllunio'r gyllideb hon, mae angen i ni:

- roi'r targedau hyn ar brawf ac ystyried unrhyw newidiadau y mae arnom angen gwneud er mwyn eu cyflawni;
- sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni'r targedau;
- sicrhau bod ein hadnoddau'n gyflin â'n blaenoriaethau

9. Er mwyn ysgogi'r ddadl hon, byddai o fudd pe baem yn mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- **ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer 2010?**
- **a oes rhai targedau sy'n bwysicach na'r lleill?**
- **beth sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn?**
- **beth fydd effeithiau'r newidiadau hyn ar bolisi a/neu adnoddau?**

**Y cefndir ariannol**

10. Ni fwriedir trafod manylion gwaelodlin y gyllideb gyfredol yn y fan yma na'r modd y mae'r Cynulliad yn cael ei chyllideb – ceir dadansoddiad cyllidebol yn Atodiad 2 o *betterwales* ac mae'r Datganiad ar Bolisi Ariannu www.hm-treasury.gov.uk/pub/html/docs/swni.html yn esbonio sut mae'r Cynulliad yn cael ei gyllideb.


11. Mae'n werth nodi bod dwy elfen i gyllideb y Cynulliad – ei Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) a'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Mae'r DEL yn cynnwys yr holl raglenni y gall y Cynulliad ei reoli ei hun, tra bo'r AME yn cynnwys rhaglenni nad yw'n bosibl gosod cyllidebau tair blynedd cadarn ar eu cyfer ac sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol – cymhorthdal cyfrif refeniw tai (HRAS), taliadau Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (CAP). Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol reolaeth dros CAP a HRAS a gaiff eu pennu ar lefel y DU; ni all y Cynulliad drosglwyddo AME i DEL.

## Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 2000-01 a 2001-02


### £ miliwn

| | 2000-01 | 2001-02 |
|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol | 7,707 | 8,076 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 368 | 407 |
| CYFANSWM GWARIANT Y CYNULLIAD | 8,075 | 8,433 |

12. Mae’n bwysig nodi bod tua 87 y cant o gyllideb Cymru’n cael ei wario gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus sy’n atebol yn uniongyrchol i’r Cynulliad, ac mai dim ond 13 y cant sy’n cael ei wario’n uniongyrchol gan y Cynulliad ei hun.




13. O ran y prif feysydd gwasanaeth, caiff dros 70 y cant o gyllideb Cymru ei wario ar iechyd, gwasanaethau cymdeithasol personol ac addysg.




14. O ran y dyraniad ar draws amcanion gwellcymru, dyrennir tua 64 y cant o gyllideb Cymru ar wella iechyd a lles, a gwella cyfleoedd i ddysgu.

15. Gan edrych tua’r dyfodol, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgymryd ag Adolygiad o Wariant a fydd yn penderfynu’r gwariant cyhoeddus, gan gynnwys cyllideb Cymru, dros gyfnod 2001-02 hyd 2003-04. **O fewn cyllideb Cymru, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol berffaith hawl i ddyrannu adnoddau o fewn ei DEL fel y gwêl yn dda, a’i ddymuniadau, ac nid oes angen iddo ddilyn blaenoriaethau gwariant adrannau Whitehall.** Caiff goblygiadau ariannol statws Amcan Un i ddwy ran o dair o Gymru hefyd eu hystyried fel rhan o’r Adolygiad o Wariant

16. Bydd canlyniadau’r Adolygiad o Wariant yn hysbys ym mis Gorffennaf, a bydd yr Ysgrifennydd Cyllid, gan ddibynnu ar amseriad yr adolygiad, yn rhoi datganiad i’r Cynulliad ar ganlyniad yr adolygiad i Gymru.

**Materion i’w hystyried ar y dechrau**

**17. Er mwyn darparu fframwaith ar gyfer ystyried materion yng nghylch cynllunio’r gyllideb, mae cyfres o faterion cyffredinol yr hoffem i’r holl bwyllgorau a phartneriaid ei hystyried gan ei bod yn ymwneud â’u meysydd o ddiddordeb –**

**(1) Cydraddoldeb**

- I ba raddau y mae gwaith presennol y Cynullid yn cyflawni ei amcanion o ran cyfle cyfartal?

- Pa gamau ddylid eu cymryd i wella perfformiad?

Mae gwybodaeth gefndirol ar gael yn yr adolygiad o berfformiad cydraddoldeb y Cynulliad o ran sicrhau cydraddoldeb. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal ar draws yr holl feysydd gwaith ac yn cael ei ddilysu gan y cyrff sy'n gweithio o blaid Cydraddoldeb.

**2. Amddifadedd Cymdeithasol**

- I ba raddau y mae'r gwaith presennol yn mynd i'r afael ag amddifadedd? Fel cefndir gweler mynegai newydd amddifadedd www.cymru.gov.uk/polinifo/urban_rural_dev/deprivation/deprivation_w.html . Mae materion penodol yn cynnwys:

- beth sydd eisiau ei wneud i newid ein gwaith fel ei fod yn adlewyrchu'r cynigion yn y rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' sy'n dod â chyllid o wahanol ffynonellau ynghyd; www.cymru.gov.uk/polinifo/housing/consultation/comm_first_conts_w.htm

- a oes digon o ganolbwyntio cyson ar anghenion plant a phobl ifanc; a'r

- graddau y mae cefnogaeth ar gael i bobl hn.

**(3) Datblygu Cynaliadwy**

- I ba raddau y mae gwaith presennol yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, ac yn arbennig integreiddio'r agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol?

- A oes rhaglenni y gellid eu cydbwyso a'u hintegreiddio'n well gyda'i gilydd? Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer eu gwella?

- Sut ddylai dyletswydd y Cynulliad i sicrhau datblygu cynaliadwy, fel y'i adlewyrchir yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy arfaethedig, www.cymru.gov.uk/polinifo/sust_dev/sustaina1_w.htm effeithio ar raglenni'r Cynulliad, ar hyn o bryd ac yn y tymor hirach?

**(4) Symleiddio**

- Faint o le sydd i leihau biwrocratiaeth, lleihau'r nifer o raglenni unigol sy'n gweithio mewn meysydd tebyg a chanolbwyntio'n fwy eglur ar amcanion â blaenoriaeth?

( **5) Cyflawni**

- Ai'r mecanweithiau cyflawni presennol yw'r rhai mwyaf addas ac effeithiol i gyflawni nodau'r Cynulliad? Yn arbennig:

- a ellid gwneud mwy o ddefnydd o'r sector gwirfoddol yng ngoleuni adroddiad gweithgor Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. http://www.wales.gov.uk/polinifo/social/social

- Ai rôl y cyrff a noddir yw'r un cywir?

- A yw llywodraeth leol mewn sefyllfa i gyflawni'i nodau?

- Beth sy’n rhwystro cydweithio effeithiol?

**Crynodeb**

18. Fel y dywedwyd uchod, y bwriad yw ystyried y cylch cynllunio’r gyllideb yng nghyd-destun y cefndir strategol ac ariannol, a nodwyd cyfres o gwestiynau i’w hystyried ar y dechrau. Caiff papurau pwnc pellach eu cyhoeddi gan Ysgrifenyddion y Cynulliad ym mis Mehefin.

**19. Byddem yn croesawu clywed eich barn am gynnwys y papur hwn erbyn 14 Gorffennaf fan bellaf.**

20. Dylai pwyllgorau a phartneriaid ffurfiol ymateb i’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol.

21. Dylai’r holl bartneriaid, unigolion a sefydliadau eraill anfon eu hymateb at:

Ann Morgan

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 6301

Gwefan: [ ]

–

**ATODIAD 1**

**Y cylch cynllunio cyllideb**

Mae Atodiad 2 yn nodi amserlen fynegol cylch 2000. Dyma’r prif elfennau:

Cyhoeddi papurau gan Ysgrifenyddion y Cynulliad

Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y pwyllgorau o’r nodyn comisiynu hwn, bydd Ysgrifenyddion y Cynulliad cyflwyno papurau yn ddiweddarach ym mis Mehefin. Gofynnir am sylwadau ehangach ar y papurau pan fyddant yn cael eu gosod gerbron y Pwyllgor a’u rhoi ar y wefan.

Bydd y papurau yn rhoi golwg gychwynnol ar:

- y perfformiad yn ystod 1999-00;

- y blaenoriaethau ar gyfer y 3 blynedd nesaf;

- rhagolygon targedau 2010 yn *gwellcymru.* a meysydd o newid neu ddatblygu posibl

**Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y papurau hyn fel y byddant ar gael.**

Trafodaeth gychwynnol y Pwyllgor

Bydd y Pwyllgor yn dechrau trafod y papurau ym mis Mehefin a bydd yn gallu profi'r adroddiadau ar berfformiad yn erbyn amcanion, yn gallu archwilio syniadau ar gyfeiriadau newydd neu weithredu mewn ffyrdd newydd, ac yn helpu i roi'r cyfle i bartïon â diddordeb fwydo'u barn.

Bydd gofyn cael sylwadau cychwynnol Pwyllgorau erbyn **14 Gorffenaf fan bellaf** , yn ogystal â sylwadau gan bartneriaid a sefydliadau eraill.

Cyllideb ddrafft

Yng ngoleuni'r sylwadau a ddaw i law, a chanlyniadau'r Adolygiad o Wariant, daw'r weinyddiaeth â chyllideb ddrafft i'w hystyried ym mis Hydref. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Bwyllgorau a phartïon eraill â diddordeb roi eu sylwadau ar y dyraniadau a gynigir a'r modd y maent yn bodloni'r nodau strategol yn *gwellcymru* .

Cyllideb Derfynol

Y nod yw gosod cyllideb fanwl yn gynnar ym mis Rhagfyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r rhai syn derbyn arian gael digon o amser i baratoi ar gyfer eu rhaglenni.

**ATODIAD 2**

**CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB Y CYNULLIAD 2000 – AMSERLEN FYNEGOL**

| Wythnos yn Cychwyn | Cyfarfod Llawn | Pwyllgorau Pwnc |
|---|---|---|
| 15 Mai | Yr Ysgrifennydd Cyllid yn cyhoeddi papur comisiynu i bartneriaid a sefydliadau eraill roi eu sylwadau arno. | Yr Ysgrifennydd Cyllid yn cyhoeddi papur comisiynu i Bwyllgorau Pwnc |
| 22 Mai | | |
| 29 Mai | | |

| | | |
|---|---|---|
| 5 Mehefin | | [7] – Addysg Cyn 16 Oed, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig – trafodaeth gychwynnol o flaenoriaethau cyllideb.<br><br>[8] – Datblygu Economaidd, yr Amgylchedd Cynllunio a Thrafnidiaeth – trafodaeth gychwynnol o flaenoriaethau cyllidebol. |
| 12 Mehefin | | [14] – Llywodraeth Leol a Thai, Addysg a Hyfforddiant –<br><br>trafodaeth gychwynnol o flaenoriaethau cyllideb. |
| 19 Mehefin | Cyhoeddi papurau Ysgrifenyddion y Cynulliad i bartneriaid a sefydliadau allanol roi eu sylwadau arnynt. | Ysgrifenyddion y Cynulliad yn cyhoeddi papurau i bwyllgorau pwnc i lywio'r cam nesaf ym mhroses y gyllideb. |
| 26 Mehefin | | |
| 3 Gorffennaf | | [5] – Addysg Cyn 16 Oed, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig – trafodaeth derfynol ar flaenoriaethau'r gyllideb.<br><br>[6] – Datblygu Economaidd, yr Amgylchedd Cynllunio a Thrafnidiaeth – trafodaeth bellach o flaenoriaethau'r gyllideb. |
| 10 Gorffennaf | Datganiad ar ganlyniadau'r Adolygid o Wariant<br><br>[14] – y dyddiad olaf am ymatebion oddi wrth bartneriaid a sefydliadau eraill. | [12] – Llywodraeth Leol a Thai, Addysg a Hyfforddiant – trafodaeth bellach o flaenoriaethau'r gyllideb<br><br>[14] – y dyddiad olaf am ymatebion oddi wrth bwyllgorau pwnc |
| 17 Gorffennaf – 8 Medi | Toriad | Toriad |

| | | |
|---|---|---|
| 11 Medi | | |
| 18 Medi | | |
| 25 Medi | | |
| 2 Hydref | | |
| 9 Hydref | | |
| 16 Hydref | Materion cyllidebol drafft | Rhyddhau'r gyllideb ddrafft |
| 23 Hydref | Cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft | |
| 30 Hydref | | |
| 6 Tachwedd | | [ ] – Pwyllgorau Pwnc i drafod y gyllideb ddrafft |
| 13 Tachwedd | | [ ] – Pwyllgorau Pwnc i drafod y gyllideb ddrafft |
| 20 Tachwedd | | |
| 27 Tachwedd | Materion cyllidebol terfynol | Rhyddhau'r gyllideb derfynol |
| 4 Rhagfyr | Cynnig i gymeradwyo'r gyllideb | |

ATODIAD 3

**Gweledigaeth 2010**

Nododd ***gwellcymru.com*** weledigaeth tymor hir (2010) sy'n darlunio llwyddiant i'r Cynulliad o ran creu economi gynaliadwy a chymdeithas decach, fwy cynhwysol, sy'n adlewyrchu prif themâu'r Cynulliad. Y cnewyllyn yw cyfres o feincnodau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn ac sy'n rhoi'r cyd-destun strategol ar gyfer ein gweithredu byrdymor. *

Rydym yn byw mewn byd sy'n newid o hyd ac mae angen ailystyried y meincnodau bob blwyddyn:

- er mwyn profi a oes angen iddynt gael eu diwygio er mwyn cynrychioli dyheadau'r Cynulliad a'i bartneriaid yn y modd gorau;
- ystyried pa gynnydd sy'n digwydd tuag at eu bodloni ac a oes angen cynyddu neu newid y gweithredu a ragwelir dros y 3 blynedd nesaf.

Bydd gwybodaeth newydd a ffactorau newydd i'w hystyried, fel cynnydd yn y boblogaeth dros 60 oed, patrymau cyflogi, technoleg a datblygu gwyddonol.

Rhoddir crynodeb o feincnodau 2010 isod.

**Gwell cyfleoedd i ddysgu**

- Darpariaeth ar gyfer holl blant cyn-ysgol oedran 3-4 oed er mwyn hyrwyddo gofal plant a dysg.
- Bydd yn rhaid i'r cynnydd mewn cyraeddiadau cyffredinol disgyblion fynd y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd yn y 1990au. Ni ddylid asesu'r un ysgol fel un â safonau anfoddhaol neu wael a dylai presenoldeb fod dros 95%
- Dylid haneru'r bwlch yng nghyrhaeddiad bechgyn a merched.
- Dylai'r ddarpariaeth addysg Gymraeg fod yn gytbwys â'r galw amdani
- Dylid cael prosbectws allgwricwlaidd cryf ar gyfer pob plentyn (gweithgareddau diwylliannol, gwirfoddoli a menter)
- Gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig neu sydd mewn perygl
- Yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i gael gwasanaethau ieuenctid integredig
- Yr addysgu o ansawdd mor dda fel bod safonau uwch mewn dosbarthiadau ysgol ac addysg ar ôl 16 oed nag yng ngweddill y DU
- Yr holl adeiladau ysgol i fod mewn cyflwr ffisegol da.
- Pob disgybl sy'n gadael ysgol i fod yn llythrennog mewn TG ac yn gallu cael y gorau o'r Rhyngrwyd.
- Bod bron i'r holl bobl ifanc yn meddu ar gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol erbyn iddynt fod yn 18 oed, a'u bod yn gallu manteisio ar naill ai addysg bellach neu uwch neu hyfforddiant mewn swydd.
- Dim tagfa o sgiliau, a'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n meddu ar y galluoedd sylfaenol sydd eu hangen at ffyniant
- Dylai addysg uwch yng Nghymru hawlio ddwywaith yn fwy o arian at waith ymchwil na'r cyfartaledd yn y 1990au
- Dylai canran y gweithlu sy'n meddu ar gymwysterau AU fod yr un fath ag yng ngweddill y DU
- Dylai'r rhan fwyaf o bobl fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol a gweithredu cymunedol.
- Dylai mwy o bobl ifanc ddatblygu i fod yn fentrwyr mewn busnes.

**Economi well a chryfach**

- Dylai allbwn fesul pen godi o 83% i 90% o gyfartaledd y DU ac o 73% i 80% yn y Gorllewin a'r Cymoedd.
- Dylai cyfanswm y nifer o fusnesau newydd fod wedi tyfu o 35,000 a swyddi wedi tyfu o 135,000 (110,000 yn y Gorllewin a'r Cymoedd).
- Dylai'r canran o bobl sydd mewn oed i weithio ac sy'n cael eu cyflogi fod wedi cynyddu, gan gynnwys y rhai dros 50 oed, felly'n lleihau'r bwlch rhwng Cymru a'r DU
- Dylai mewnfuddsoddi fod ar lefelau'r 1990au o leiaf
- Dylai'r gynrychiolaeth yn y sectorau seiliedig ar wybodaeth fod yn uwch
- Dylai gwaith Y a D busnesau fod wedi tyfu'n gyflymach nag yng ngweddill y DU a dylai'r lefel o arloesi fod ymysg y gorau yn y DU
- Dylai'r gwerth ychwanegol am bob person sy'n cael ei gyflogi mewn amaethyddiaeth fod wedi codi o 10%
- Dylai'r nifer o swyddi mewn prosesu llaeth a chig oen ac eidion fod wedi cynyddu gan 10%
- Dylai'r arwynebedd tir amaethyddol dan ofal cynllun amaeth-amgylcheddol neu â statws organig fod wedi cynyddu'n sylweddol
- Rhaid i Gymru gael agwedd fwy rhyngwladol, rhaid iddi feddu ar broffil rhyngwladol uwch a hunaniaeth genedlaethol gliriach.
- Dylai mwy o gwmnïau allforio
- Dylid denu mwy o ymwelwyr a myfyrwyr tramor i Gymru
- Dylai polisïau'r DU a'r UE fod wedi'u haddasu'n well i'n hanghenion
- Dylai Cymru fod yn lle ble i bobl ifanc fod yn awyddus i fyw a gweithio yno a dylent allu gwneud hynny

**Gwell iechyd a lles**

- Dylai ffyrdd o fyw fod yn iachach, yn enwedig yn ein cymunedau tlotaf – gan gynnwys gostyngiadau mewn ysmygu a llyfnhau tueddiadau at dewdra a chamddefnyddio sylweddau
- Dylai llai o bobl farw cyn eu hamser a dylai'r blynyddoedd o fywyd posibl a gollir cyn 65 fod wedi gostwng gan 14%, â'r gostyngiad mwyaf yn ein cymunedau tlotaf
- Ni ddylai marwolaeth babanod fod yn fwy na 5 ym mhob 1,000 o enedigaethau byw
- Rhaid i'r graddfeydd goroesi 5-mlynedd am achosion difrifol o afiechydon y galon a chancrau fod yn llawer agosach at y graddfeydd gorau yn Ewrop
- Dylid bod wedi mynd i'r afael ag amserau aros hir am gyflyrau difrifol, poenus sy'n anablu neu gyflyrau sy'n datblygu.
- Dylai pawb y gellid disgwyl o ddifrif iddynt allu byw'n annibynnol allu gwneud hynny gan roi'r gefnogaeth briodol iddynt
- Dylai cydweithio effeithiol a sylweddol rhwng yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn gwbl arferol.
- Dylai'r NHS fod wedi'i addasu'n well at anghenion pobl, a mwy o benderfyniadau'n cael eu cymryd yn lleol a'r galw am wasanaethau yn cael ei ddeall a'i reoli'n llawer gwell
- Llai o bwyslais ar adeiladau a mwy ar ymyriadau gwirioneddol effeithiol, gan gynnwys lle mae gwyddoniaeth enynnol wedi dechrau cael effaith
- Gwneud y gorau o delefeddygaeth
- Dylai'r gwelliannau parhaus yn effeithiolrwydd yr NHS olygu rhyddhau adnoddau i'w buddsoddi mewn meysydd â blaenoriaeth

**Ansawdd bywyd**

- Gwelliant yn ansawdd yr aer, ac ansawdd y dr yn cyrraedd safonau EUI
- Codiad yn y nifer o gartrefi sy'n ailgylchu gwastraff yng Nghymru o 3% i 25%
- Dylai poblogaeth adar gwyllt sy'n gostwng ar hyn o bryd fod wedi dechrau codi
- Dylai mwy o'r bobl sy'n teithio i'r gwaith o bell fod yn gwneud hynny trwy ddulliau heblaw ceir, trwy ddarparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau beiciau.
- Cyfran uwch o lwythi'n cael eu cludo ar reilffyrdd.
- Preswylwyr yn barnu bod ansawdd bywyd wedi gwella'n sicr yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig
- Tai cymdeithasol o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd heb fodd i brynu t
- Sector rhentu preifat llewyrchus ond yn cael ei reoleiddio'n effeithiol
- Dileu'r angen i gysgu allan
- Gwell cyfleusterau hamdden i blant a phobl ifanc
- Dylai pobl deimlo'n ddiogel ar y strydoedd ac yn eu cartrefi
- Dylai gwybodaeth a gwerthfawrogiad rhyngwladol o gelfyddydau a chwaraeon Cymru fod wedi cynyddu'n sylweddol
- Dylai'r canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg fod wedi cynyddu.

**Gwell, symlach llywodraeth**

- Dylai'r Cynulliad a'r holl gyrff cyhoeddus mawr yng Nghymru fod wedi cyflawni gwelliannau yn eu gwasanaeth a'u heffeithiolrwydd sy'n cyfateb â rhai cyrff cymharol yn y DU
- Dylai graddfeydd bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus fod yn fwy na 90%
- Llywodraeth leol o ansawdd uchel yn gweithio yn unol ag egwyddorion gwerth gorau, tryloywder a phartneriaeth.
- Dylai nifer y cwynion sy'n cael eu cefnogi gan y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru fod wedi gostwng yn sylweddol
- Dylai polisïau a gweithredoedd cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried amrywioldeb anghenion a barn y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu.

*Mae gwaelodlin ar gyfer llawer o'r rhain wedi'i bennu yn y papur ***Mesuriadau Perfformiad*** sy'n cydfynd â ***gwellcymru.***